



**CYNGOR BRO MORGANNWG,
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,
Y BARRI CF63 4RU**

**HYSBYSIAD STATUDOL I SEFYDLU DWY YSGOL GYFUN CYFRWNG SAESNEG
CYMYSGRYW 11-18 OED NEWYDD AR SAFLEOEDD PRESENNOL YSGOL GYFUN Y BARRI
AC YSGOL GYFUN BRYN HAFREN O FIS MEDI 2018**

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag adrannau 41 a 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefnu ysgolion fod Cyngor Bro Morgannwg, wedi ymgynghori â'r personau hynny yn ôl y gofyn, yn cynnig:

1. Dirwyn yr ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg un rhyw 11-18 oed canlynol gaiff eu cynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Bro Morgannwg:
 - Ysgol Gyfun Y Barri, Port Road West, Y Barri CF62 8ZJ
 - Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Ffordd Merthyr Dyfan, Y Barri, CF62 9YQ
2. Sefydlu dwy ysgol gymunedol newydd cymysgryw 11-18 oed cyfrwng Saesneg ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun Y Barri, Port Road West, Y Barri CF62 8ZJ ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren Ffordd Merthyr Dyfan, Y Barri CF62 9YQ i'w cynnal gan Gyngor Bro Morgannwg.
3. Sefydlu chweched dosbarth ar y cyd, ar draws y ddwy ysgol

Cynhaliodd Cyngor Bro Morgannwg gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Ceir copi o adroddiad yr ymgynghoriad yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn i'w weld ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar y ddolen ganlynol: www.valeofglamorgan.gov.uk/barryschools

Bwriedir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2018. Bydd yr ysgolion newydd yn ysgolion cymunedol.

Cynigir y bydd gofyn i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 10 fynegi dewis ar gyfer lle yn un o'r ysgolion hyn. Bydd disgyblion sydd ar gychwyn blwyddyn 11 yn parhau yn eu dosbarthiadau presennol ac fe gânt eu cofrestru yn yr ysgol a fydd yn agor ar safle eu hysgol bresennol. Bydd disgyblion sy'n mynd i flwyddyn 12 yn dewis eu dewisiadau Ôl 16 yn ystod gwanwyn 2018 a byddant yn mynychu'r ysgol sy'n cynnig eu cwrs o fis Medi 2018. Bydd disgyblion sy'n symud i flwyddyn 13 yn aros yn eu dosbarth presennol.

Caiff dalgylchoedd newydd eu sefydlu ar gyfer yr ysgolion newydd. Mae modd gweld y dalgylchoedd ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/barryschools neu gan y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, Provincial House, Kendrick Road, Y Barri CF62 8BF.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yn gweithredu fel awdurdod derbyn. Bydd derbyn ar gyfer y chweched dosbarth yn cael ei ddirprwyo i gyrff llywodraethu'r ddwy ysgol. 180 yw'r nifer derbyn ar gyfer disgyblion 11/12 oed yn mynd i flwyddyn 7 yn y ddwy ysgol ym mis Medi 2018, sef y flwyddyn gyntaf y bydd y cynigion yn cael eu rhoi ar waith. Y nifer derbyn ar ddisgyblion yn mynd i'r chweched dosbarth unedig ym mis Medi 2018 ym mlwyddyn 12, sef 16/17 oed fydd 200. Nid yw trefniadau derbyn ar gyfer blynnyddoedd 7-11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer derbyn ar sail gallu (bandio disgyblion). Y gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau yn y chweched dosbarth unedig yw gradd C mewn 5 TGAU neu gymhwyster cyfatebol. Bydd maint y ddwy ysgol yn golygu y bydd lle i 1,100 o lefydd uwchradd bob un ar y ddwy safle.

Mae'r trefniadau teithio Dysgwyr Cymru Gyfan yn berthnasol i gymhwysedd disgyblion am drafniadaeth i ac o'r ysgol os ydynt yn byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir i blant oed cynradd, a thair milltir i blant oed

uwchradd, fel a fesurwyd yn ôl y llwybr agosach sydd ar gael. Mae Bro Morgannwg yn darparu cludiant yn unol â'r uchod. O ganlyniad i'r newid i ddalgylchoedd yr ysgol, caiff adolygiad o gymhwysedd disgyblion ei gwblhau.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef 31 Ionawr 2017, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Dros Dro, Cyngor Bro Morgannwg, Tŷ Provincial, Kendrick Road, Y Barri CF62 8BF neu e-bostio JMJones@valeofglamorgan.gov.uk

Llofnod:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Dros Dro
3 Ionawr 2017

NODYN ESBONIADOL - nid yw'n rhan o'r hysbysiad statudol

Mae'r cyngor yn cynnig trawsnewid addysg uwchradd cyfrwng Saesneg yn Y Barri drwy sefydlu dwy ysgol gyfun gymysgryw 11-18 oed cyfrwng Saesneg ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Mae'r Cyngor ymhellach yn cynnig creu chweched dosbarth unedig dan arweiniad un Pennaeth Chweched gyda chysiau yn cael eu cynnig ar y ddwy safle gyda'r naill ysgol a'r llall yn arbenigo ar feysydd pwnc penodol.

Caiff buddsoddiad cyfalaf sylweddol ei wneud, yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, wrth sefydlu'r ddwy ysgol newydd a datblygu adnoddau cyfoes. Amcan cost y project yw £44m y bydd £32.5m o hwnnw yn cael ei wario ar adeiladu ysgol newydd a Chanolfan Rhagoriaeth Ymddygiad ar safle Ysgol Gyfun Y Barri ac £11.5 miliwn ar foderneiddio a chreu adnoddau newydd ar safle presennol Ysgol gyfun Bryn Hafren.

Byddai'r ddwy ysgol newydd yn cael eu sefydlu ym mis Medi 2018 cyn rhaglen adeiladu a buddsoddi llawn ar gyfer yr ysgolion. Erbyn mis Medi 2018 byddai gwaith wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau bod cyfleusterau toiled a newid i fechgyn a merched yn y ddwy ysgol. Yn 2020 byddai rhaglen fuddsoddi yn cychwyn gydag adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Y Barri ynghyd ag adnoddau newydd a chyfoes yn Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Byddai'r rhaglen fuddsoddi wedi ei chwblhau erbyn 2022, yn amodol ar gyllido.

Gan fod y ddwy ysgol ar hyn o bryd yn rhannu'r un ddalgylch, byddai dwy ddalgylch newydd yn cael eu sefydlu. Byddai'r ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun Y Barri at ei gilydd yn gwasanaethu gorllewin y dref a'r ysgol newydd ar safle Bryn Hafren yn gwasanaethu'r dwyrain.

Y Cyngor fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion. Bydd derbyn ar gyfer y chweched dosbarth yn cael ei ddirprwyo i gyrff llywodraethu'r ddwy ysgol. Bydd trefniadau derbyn arferol ar waith ar gyfer blynyddoedd 7 i 11 lle mae mynychu ysgol fwydo gysylltiol a byw yn y dalgylch yn flaenoriaeth uchel ar gyfer derbyn os oes gordanystrifio. Y gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau yn y chweched dosbarth unedig yw gradd C mewn 5 TGAU neu gymhwyster cyfatebol.

Cynigir y bydd y ddwy ysgol gymysgryw yn agor yn 2018. Gofynnir i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 10 fynegi dewis ym mis Medi 2017 ar gyfer lle yn un o'r ysgolion hyn. Bydd disgyblion sydd ar gychwyn blwyddyn 11 yn parhau yn eu dosbarthiadau presennol ac fe gânt eu cofrestru yn yr ysgol a fydd yn agor ar safle eu hysgol bresennol. Bydd disgyblion sy'n mynd i flwyddyn 12 yn dewis eu dewisiadau Ôl 16 yn ystod gwanwyn 2018 a byddant yn mynychu'r ysgol sy'n cynnig eu cwrs o fis Medi 2018. Bydd disgyblion sy'n symud i flwyddyn 13 yn aros yn eu dosbarth presennol.